Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

**EX728**

# Mae gennyf setliad gan y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (Acas) (Ffurflen COT3) ond nid yw'r atebydd wedi talu

## Sut alla'i orfodi'r setliad?

Mae'r daflen hon yn esbonio sut y gallwch chi orfodi setliad Acas sydd heb ei dalu gan ddefnyddio gwasanaethau un o Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys a dilyn Trac Cyflym Acas a'r Tribiwnlys Cyflogaeth.

I gael manylion am y mathau eraill o orfodi sydd ar gael a sut mae gorfodi setliad amodol Acas, darllenwch daflen EX329 y Llys Sirol. Mae honno ar gael gan unrhyw ganolfan wrandawiadau Llys Sirol neu ar ein gwefan hmctsformfinder.justice.gov.uk

## Beth yw Trac Cyflym Acas a'r Tribiwnlys Cyflogaeth?

Mae trac Cyflym Acas a'r Tribiwnlys Cyflogaeth yn cael ei weithredu gan Registry Trust Ltd. Mae hyn yn golygu bod un o Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys yn cael ei neilltuo i'ch achos ar ddechrau'r broses orfodi. Wedyn, bydd y Swyddog Gorfodi, drwy gyfreithiwr, yn gweithredu ar eich rhan i ffeilio'ch setliad gyda'r Llys Sirol, i godi'r Writ Cymryd Rheolaeth ac i geisio adennill yr arian sy'n ddyledus ichi gan yr atebydd.

## Oes rhaid talu am y system hon?

Yr unig dâl y bydd yn rhaid i chi ei dalu fydd ffi i'r llys am godi'r writ cymryd rheolaeth. Bydd y llys yn ychwanegu'r ffi at y swm sydd eisoes yn ddyledus gan yr atebydd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am ffioedd y llysoedd gan staff y llysoedd neu ar y daflen ffioedd (EX50 - Ffioedd y Llysoedd Sifil a Theulu), sydd ar gael gan unrhyw ganolfan wrandawiadau Llys Sirol, neu ar ein gwefan hmctsformfinder.justice.gov.uk

Efallai na fydd yn rhaid i chi dalu ffi, neu efallai cewch ostyngiad os nad oes gennych lawer o gynilion a buddsoddiadau, os ydych yn cael budd-daliadau penodol neu os ydych ar incwm isel. Weithiau gelwir hyn yn 'dileu ffi.'

Gallwch wneud cais am help gyda ffioedd llys a thribiwnlys ar-lein yn www.gov.uk/

help-with-court-fees neu drwy'r ffurflen 'EX160A – Gwneud cais am help i dalu ffioedd' a'r cyfarwyddyd 'EX160A – Sut i wneud cais am help i dalu ffioedd'.

Os digwydd iddynt fethu â chasglu'r arian sy'n ddyledus ichi, ni fydd y Swyddog Gorfodi'n codi'r ffi y bydd yn ei chodi fel rheol pan fydd yn rhoi'r gorau i'r achos. Ond, os digwydd hyn, ac os na chewch chi'ch setliad, nid oes modd ad-dalu'r ffi y gwnaethoch ei thalu i'r llys.

## Sut ydwi'n  defnyddio system y Trac Cyflym?

Mae'r gorfodi'n gallu dechrau cyn gynted ag y bydd yr Atebydd heb dalu'r setliad. I gychwyn ar y Trac Cyflym, fe ddylech lenwi'r ffurflen ar y dudalen nesaf a'i hanfon i'r cyfeiriad sydd gyda'r dogfennau a restrir. Wedyn, bydd y Swyddog Gorfodi sydd wedi'i neilltuo i'ch achos yn cysylltu â chi.

## Ga'i hawlio llog ar y setliad?

Dim ond os cymerir camau gorfodi y bydd llog yn daladwy ar eich setliad. Wedyn, bydd y llog yn daladwy o'r dyddiad pan ddaeth yr arian yn ddyledus o dan y cytundeb (y dyddiad talu); os nad oes dyddiad talu wedi'i nodi yn y cytundeb, bydd y llog yn cronni o'r dyddiad y llofnodwyd y cytundeb.

## Sut y bydd datganiad gan yr Atebydd yn effeithio ar orfodi fy setliad?

Mae'n bosibl y bydd yr Atebydd yn gwneud datganiad sy'n dweud nad yw'r arian sy'n ddyledus ichi yn daladwy ganddynt yn ôl cyfraith gontract gyffredin. Er mwyn gwneud hyn, rhaid iddynt wneud cais ar wahân, naill ai i'r llys neu i'r Tribiwnlys Cyflogaeth.

Os byddant yn gwneud cais o'r fath, ni allwch barhau i orfodi'ch setliad yn y llys nes bod datganiad wedi'i wneud ynglŷn â'r cais hwnnw.

Serch hynny, os ydych chi'n siŵr nad oes datganiad o'r fath wedi'i wneud, gallwch ddweud hynny wrth y Swyddog Gorfodi a'r llys drwy lofnodi'r ardystiad sydd ar y Ffurflen Gorfodi.

## Ymhle ga’i afael ar wybodaeth ychwanegol?

Dyma rai o’r cwestiynau y bydd pobl yn aml yn eu gofyn am y Trac Cyflym a all fod o help ichi yn eich achos:

C: Rwyf wedi llenwi fy ffurflen gais ac wedi anfon fy siec am £60.00 i dalu ffi’r Llys - beth sy’n digwydd nawr?

A: Bydd Registry Trust yn rhoi eich achos i un o Swyddogion Gorfodi’r Uchel Lys ar sail rota. Bydd eich Swyddog Gorfodi’n paratoi cais ar gyfer y llys (Ffurflen N471), yn drafftio Gwrit Cymryd Rheolaeth, sy’n rhoi’r awdurdod i’r Swyddog wneud y gwaith gorfodi ar eich rhan, ac yn anfon y rhain i’r llys ar gyfer codi.

Ar ôl i’r Registry Trust eu derbyn, byddwch chi’n cael cydnabyddiaeth, gyda chyfeirnod a manylion y Swyddog Gorfodi a fydd yn gweithredu ar eich rhan.

C: Sut y galla’i gael gwybod sut mae pethau’n mynd?

A: Ffoniwch swyddfa’r Swyddog Gorfodi, rhowch gyfeirnod yr achos iddyn nhw, a gofynnwch i’r aelod o’r staff ddweud wrthych beth yw’r sefyllfa ddiweddaraf.

Gadewch o leiaf 21 diwrnod ar ôl dyddiad eich cais cyn ffonio.

C: Pa bryd y ca’i fy arian?

A: Os bydd popeth yn mynd yn hwylus, rhyw 14 diwrnod ar ôl i’r arian gael ei dalu i’r Swyddog Gorfodi

Byddwch chi’n cael swm eich dyfarniad, llog o 8%, a chostau a fydd yn talu am eich ffi llys cychwynnol.

Os na fydd y Swyddog Gorfodi’n llwyddo i adennill dim (oherwydd er enghraifft bod cwmni’r atebydd wedi ei ddiddymu), ni chodir tâl arnoch chi - y cyfan y byddwch wedi’i golli fydd ffi’r llys sef £60.00.

Os bydd eich Swyddog Gorfodi’n llwyddo i adennill rhan o’r dyfarniad yn unig, bydd ffioedd y Swyddog yn cael eu tynnu o’ch swm, ond bydd y rhain yn cael eu gostwng yn ôl cyfran yr arian y bydd wedi llwyddo i’w adennill.

C: Sut mae’r Swyddog Gorfodi’n cael ei dalu?

A: Drwy adennill ei ffioedd am wneud gwaith gorfodi llwyddiannus ac felly, os bydd yn llwyddo ar eich rhan, bydd ar ei ennill. Fel arall, ni fydd yn cael ei dalu.

Mae’r Swyddogion Gorfodi’n cael eu rheoleiddio gan yr Arglwydd Ganghellor a byddant yn codi tâl ar sail graddfa ffioedd sy’n caniatáu iddyn nhw ychwanegu eu ffioedd ar ben y swm sy’n ddyledus i chi.

Bydd y swm y bydd yr atebydd yn ei dalu mewn ffioedd yn dibynnu ar i ba raddau y mae’n cydweithredu - mwyaf yr oedi wrth adennill eich arian, mwyaf y bydd rhaid iddo’i dalu.

C: Ydych chi’n sicr na fydd hyn yn costio mwy na’r ffi llys?

A: Yn bendant, os na fydd y Swyddog Gorfodi’n llwyddo i adennill dim arian - dyna oedd y cytundeb rhwng Swyddogion Gorfodi’r Uchel Lys a’r Weinyddiaeth Cyfiawnder pan sefydlwyd y Cynllun. Ond :

Fel y dywedwyd, byddwch yn talu rhan o ffioedd y Swyddog Gorfodi os bydd yn llwyddo i adennill rhan o'r dyledion yn unig. Ond, bydd y ffioedd hynny'n cael eu gostwng yn ôl union gyfran yr arian y bydd yn ei adennill.

Os dechreuwch chi drafod gyda'r atebydd, ar ôl rhoi cyfarwyddiadau i Swyddog Gorfodi a'ch bod yn cyfaddawdu ar swm heb ystyried ffioedd y Swyddog, byddwch chi'n gyfrifol am dalu'r ffioedd hynny, ond byddant yn cael eu gostwng yn ôl cyfran swm y cyfaddawd, os bydd hynny'n briodol.

Ni ddylech drafod yn uniongyrchol â'r atebydd ar ôl rhoi cyfarwyddiadau i'r Swyddog Gorfodi.

Os bydd hawliad am nwyddau sydd wedi'u hatafaelu gan y Swyddog Gorfodi, gofynnir ichi a ydych chi'n addef i'r hawliad ynteu'n ei wrthwynebu.

Os byddwch chi'n gwrthwynebu'r hawliad, rhaid i'r Swyddog Gorfodi godi gwŷs er mwyn i'r hawliad gael ei benderfynu gan y llys.

Bydd y Swyddog Gorfodi'n cysylltu â chi cyn cymryd y cam hwn er mwyn cael eich cyfarwyddiadau ynghylch sut mae fwrw ymlaen, oherwydd byddwch chi'n gyfrifol am gostau'r Swyddog Gorfodi os bydd yr hawliad yn llwyddiannus.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall eich atebolrwydd posibl am gostau, cyn gwrthwynebu hawliad.

C: Os ydw i'n anfodlon â'r y gwasanaeth y bydda i'n ei gael gan y Swyddog Gorfodi, beth alla'i wneud?

A: Mae gan bob Swyddog Gorfodi weithdrefn gwyno fewnol - ysgrifennwch atyn nhw gan esbonio pam rydych chi'n anhapus er mwyn i'r Swyddog Gorfodi geisio datrys y broblem.

Os na allwch chi gytuno, gallwch fynd â chwyn at Gymdeithas Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys drwy ysgrifennu at y Swyddog Cwynion yn

50 Broadway, Llundain SW1H 0RG

Mae rhagor o wybodaeth am Drac Cyflym Acas a'r Tribiwnlys Cyflogaeth ar gael hefyd ar wefan Cymdeithas Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys yn www.hceoa.org.uk, ac ar wefan y Registry Trust yn www.trustonline.org.uk

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

acas

# Ffurflen orfodi - Trac Cyflym Acas a’r Tribiwnlys Cyflogaeth

## Dim ond i awdurdodi un o Swyddogion Gorfodi’r Uchel Lys i orfodi’ch Setliad Acas ar eich rhan drwy Writ Cymryd Rheolaeth y dylid defnyddio’r ffurflen.

Rhaid i’r manylion y byddwch chi’n eu rhoi gyfateb i’r rheini sydd ar eich ffurflen COT3.

Eich manylion (manylion y Ceisydd)

Enw

Rhif ffôn

Cyfeiriad

Cod Post

Cyfeiriad E-bost

Manylion Cyfreithiwr / Cynrychiolydd (os yw hynny’n berthnasol)

Enw

Rhif Cyfeirnod.

Cyfeiriad

Rhif ffôn

Cod post

Cyfeiriad E-bost

Manylion yr Atebydd

Enw

Rhif ffôn

Cyfeiriad

Cod post

Cyfeiriad E-bost

Gwybodaeth a all helpu gyda'r Orfodaeth

Rhowch fanylion unrhyw wybodaeth am yr atebydd a allai fod o help wrth orfodi'ch setliad (e.e. stoc masnachu, manylion cerbyd, cyfeiriad masnachu hysbys diwethaf ac ati):

| |
|---|
| |

Rwy'n tystio nad oes datganiad wedi'i wneud sy'n dweud na fyddai modd adennill y swm hwn oddi wrth yr atebydd o dan gyfraith gontract gyffredin ac nad oes cais o'r fath yn yr arfaeth.

Rwy'n awdurdodi Registry Trust Limited i neilltuo'r Setliad Acas hwn i un o Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys ac yn awdurdodi'r Swyddog a neilltuir, o dan oruchwyliaeth cyfreithiwr, i lofnodi ffurflen N471A a chael Gwrit Cymryd Rheolaeth er mwyn gorfodi'r dyfarniad.

Llofnod y ceisydd ______________________________________________

Printiwch eich enw __________________________________ Dyddiad ______________________

Gyda'r ffurflen hon, anfonwch:

- Y ffurflen COT3 a ddarparwyd gan Acas
- Siec am £60 yn daladwy i 'Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM' (peidiwch ag anfon arian parod), neu
- EX160 i wneud cais am ddileu'r ffi ynghyd â'r dystiolaeth briodol.

Ar ôl ichi lenwi'ch ffurflen gais, anfonwch hi a'r dogfennau y gofynnwyd amdanynt i:

Registry Trust Limited
Gorfodaeth Acas a'r Tribiwnlys Cyflogaeth
153–157 Cleveland Street
Llundain W1T 6QW

Ffôn: 020 7391 7299

Ar ôl i Registry Trust Limited neilltuo'ch achos, bydd un o Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys yn cysylltu â chi i gydnabod eu bodwedi derbyn eich cyfarwyddiadau'n ddiogel.

Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.


© Hawlfrain y Goron 2016